# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3) 08-10 : Cofnodion

**Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Mehefin 2010**
**Amser: 09.30 - 10.34**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Christine Chapman AC, Cwm Cynon (Cadeirydd)
Andrew R.T. Davies AC, Canol De Cymru
Mike German AC, Dwyrain De Cymru
Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Naomi Stocks, Clerc
Andrew Minnis, Dirprwy Glerc
Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. Deisebau newydd

**P-03-272 Ni ddylid defnydddio ceffylau o dan ddaear**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros am ymateb gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig.

**P-03-282 Parhewch i ariannu gwasanaethau cymorth ar gyfer demensia cynnar**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros am ymateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**P-03-292 Darparu toiledau cyhoeddus**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros am ymateb gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol;

ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn gofyn a ydynt yn fodlon cynnal ymchwiliad i'r mater;

ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn am fanylion ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus yn yr awdurdodau lleol;

ysgrifennu at adrannau cynllunio'r awdurdodau lleol yn gofyn beth yw'r gofynion ar gyfer darparu cyfleusterau toiledau mewn datblygiadau y tu allan i'r trefi.

### 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

**P-03-065 Taliadau Deintyddol y GIG**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebydd i ofyn am ei barn am ymateb y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyngor Deintyddol Prydain

**P-03-150 Safonau Canser Cenedlaethol**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Byrddau Iechyd Lleol yn gofyn a fyddant yn gallu cwrdd â'r targedau yn ystod 2010, ac os nad ydynt, pa gamau maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r methiant hwnnw a phryd y byddant mewn sefyllfa i gyrraedd y targedau.

adolygu'r wybodaeth ddiweddaraf gan Uned Ddealltwriaeth a Gwyliadwriaeth Canser Cymru (Wales Cancer Intelligence and Surveillance Unit)

ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn sut y bydd gwybodaeth am berfformiad yn cael ei gyfleu i'r cyhoedd mewn modd hygyrch.

**P-03-170 Cyflogaeth Mencap Cymru - Deiseb i gynyddu nifer y bobl ag anableddau dysgu a gyflogir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am sesiynau craffu'r Pwyllgor gyda'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru;

gwahodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor;

ysgrifennu at Mencap Cymru yn gofyn am fanylion canlyniadau prosiect ymchwil Cer Amdani!;

comisiynu papur gwybodaeth gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar effeithiolrwydd gweithredu polisïau sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu i sicrhau gwaith.

**P-03-183 Gwella Gwasanaethau Rheilffordd yn Aberystwyth**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb a pharatoi adroddiad cryno gan gyfeirio at waith y rhaglen Partneriaid mewn Gwleidyddiaeth Mencap Cymru.

**P-03-206 Nofio am ddim drwy'r flwyddyn i blant a phobl ifanc**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebwyr gan gyflwyno'r wybodaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor;

ysgrifennu at y Gweinidog dros Dreftadaeth yn gofyn am wybodaeth am sut mae'r cynllun yn cael ei hysbysebu ac a fydd dull gweithredu unffurf yn cael ei fabwysiadu;

ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn a yw'r rhaglen yn gynaliadwy o gofio nad oes arian ychwanegol wedi'i ddarparu.

**P-03-207 Cymorth i'r di-waith ym Mynwy**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ailedrych ar y ddeiseb yn nhymor yr hydref os na dderbynnir diweddariad pellach.

**P-03-211 Cyfleusterau gofal i ddioddefwyr demensia**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am ragor o wybodaeth am sut y bydd y gwaith ar wasanaethau dementia yn cyflawni amcanion y ddeiseb a pha waith penodol y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i fynd i'r afael â'r prinder a chostau llefydd mewn cartrefi gofal

ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn am wybodaeth am gynllunio'r ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer cartrefi gofal a gwybodaeth am atebolrwydd o ran gwneud penderfyniadau.

**P-03-234 Mae ar Gymru angen mwy o goed brodorol**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn gofyn am wybodaeth bellach am sut y bydd Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru yn cyflawni amcanion y ddeiseb, gan ofyn am gadarnhad o'r amserlenni ar gyfer gweithredu'r cynllun, manylion am sut y bydd deiliaid yn gallu cyfrannu at adolygiad o'r Cynllun Grantiau Coetir, a gwybodaeth bellach am weithredu'r cynllun grantiau Camau Cyntaf, ynghyd ag amserlenni.

**P-03-243 Tynnu'n ôl yn ffurfiol o'r strategaeth is-ranbarthol Gorllewin Caer / Gogledd-ddwyrain Cymru**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn gofyn a allai ystyried y materion a godwyd yn y ddeiseb;

ysgrifennu at y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn gofyn iddo ystyried y ddeiseb yn ei ymchwiliad i gynllunio;

ysgrifennu at y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn gofyn a oes penderfyniad wedi'i wneud ar adolygu'r strategaeth;

ysgrifennu at y deisebwyr i'w hysbysu am ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd;

ysgrifennu at y cynghorau sy'n gysylltiedig â'r strategaeth yn gofyn iddynt egluro'r pryderon a gafwyd ynghylch y datblygiad a'r defnydd o ffigurau rhagamcaniad y boblogaeth.

**P-03-246 Cael gwared ar y terfyn cyflymder o 50mya ar yr M4 ger Casnewydd**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn pam nad yw Traffig Cymru yn casglu gwybodaeth fanwl am lif y traffig, sut y mae penderfyniadau yn cael eu gwneud a'u cyfiawnhau yn absenoldeb y wybodaeth hon a pha ddata sy'n cael ei gasglu.

**P-03-248 Gwella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus i bobl ag anableddau**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn gofyn a all ystyried gwaith ychwanegol yn ei ymchwiliad i hygyrchedd gorsafoedd rheilffordd ar y materion ehangach a amlygwyd gan y ddeiseb;

ysgrifennu at Trenau Arriva Cymru yn gofyn a allant gynnal adolygiad o effaith materion yn ymwneud â mynediad ar deithwyr.

**P-03-253 Mabwysiadu carthffosydd preifat**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn gofyn a ellir cynnwys y deisebwyr yn yr ymgynghoriad ar drosglwyddo carthffosydd preifat;

ysgrifennu at y deisebwyr yn rhoi manylion am ganfyddiadau'r Pwyllgor hyd yn hyn a gofyn iddynt am eu barn am y trosglwyddiad a fwriedir yn 2011, gan dynnu eu sylw at y ffaith bod ymgynghoriad wedi'i drefnu ar gyfer yr haf;

ysgrifennu at y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn gofyn am ei farn am y ddeiseb.

**P-03-256 Trenau ychwanegol i Abergwaun**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn pryd y bydd y Flaenraglen Rheilffyrdd yn cael ei hadolygu nesaf;

ysgrifennu at y deisebwyr gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

**P-03-261 Atebion lleol i dagfeydd traffig yn y Drenewydd**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebwyr yn gofyn a yw ymateb y Dirprwy Brif Weinidog yn ateb eu gofidiau;

ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn am eglurhad o ran pryd y gellir disgwyl cyhoeddiad am y penderfyniad ar y cynllun sy'n cael ei ffafrio ar gyfer ffordd osgoi'r Drenewydd.

**P-03-263 Rhestru Parc y Strade**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Dreftadaeth yn gofyn am ei farn am gyflwyno categori newydd i amddiffyn meysydd chwarae hanesyddol, a ddylid gorfodi awdurdodau lleol i greu rhestr leol, ac a ddylai hyn amddiffyn adeiladau rhestredig;

ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn gofyn am ei barn a ddylai rhestru lleol fod yn ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

**P-03-270 Gweithredu dros Blant**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ystyried a chytuno ar y cylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliad i'r materion a amlygwyd yn y ddeiseb.

**P-03-277 Newid y penderfyniad i werthu alcohol yn Eisteddfod yr Urdd**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at yr Urdd i ofyn am wybodaeth bellach am yr arfarniad sydd wedi'i drefnu ar argaeledd alcohol yn yr Eisteddfod ac a yw, yn sgil y canlyniad, yn bwriadu gwerthu alcohol mewn digwyddiadau yn y dyfodol;

ysgrifennu at y Gweinidog dros Dreftadaeth yn gofyn faint o arian a roddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ac a glustnodwyd yr arian ar gyfer gweithgareddau penodol.

**P-03-278 Diffyg fitamin B12**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebwr yn darparu manylion ynghylch yr opsiynau sydd ar gael i fwrw ymlaen gyda'r mater a amlygwyd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**P-03-284 Deiseb Tai Cymdeithasol Brynmawr**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at Melin Homes yn gofyn sut y maent yn bwriadu cynnwys y gymuned yn natblygiad y cynlluniau ar gyfer y safle;

ysgrifennu at y deisebwyr yn gofyn a ydynt yn defnyddio'r broses gynllunio i leisio eu pryderon.

## 4. P-03-197 Achub y Vulcan - Ymateb y Llywodraeth

Ystyriodd y Pwyllgor ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb yn swyddogol ond monitro gweithgareddau Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth ymateb, gyda'r bwriad i gynnwys y materion hyn yn adroddiad gwaddol y Pwyllgor.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Mehefin 2010**